**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022 - 2027**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 a gynhaliwyd Dydd Mercher, 25 Ionawr 2023 am 5.00 pm ym Rhithwir.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 Aelodau oedd yn bresennol**:-**:-**

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd M Ashford |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd G L Warren | Y Cynghorydd K Webb |
| Y Cynghorydd G E Williams | |

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Ms S Daniel, Uwch Swyddog Gwasanaethau Llywodraethol

**Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd S.Evans  Y Cynghorydd S Morgans

**37 Datganiadau o Fuddiant**

Doedd dim datganiadau o fuddiant.

**38 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2022.

**39 Dolenni Ymgynghori**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2022.

**40 Archwilio Cymru: Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i Aelodau er mwyn rhannu manylion adroddiad cenedlaethol diweddaraf Archwilio Cymru a rhoi cyfle iddyn nhw adolygu'r argymhellion yng nghyd-destun ein gwaith ac ymateb y Cyngor. Hefyd, nodi'r adroddiad yng nghyd-destun ehangach rhaglen waith 2021/22 Archwilio Cymru, fydd yn cael ei hadlewyrchu yn y Crynodeb Archwilio sydd i'w gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Cafodd adborth ei ddarparu o ran y risg o beidio â chyrraedd y targed uchelgeisiol iawn ar gyfer 2030 a phwysleisiodd Aelodau fod angen i ni gydweithio ar draws pob sefydliad, yn enwedig mewn sefydliadau mawr lle mae'n bosibl bod adrannau'n gweithio yn unigol ac sydd efallai dim yn croesgyfeirio cynlluniau / polisïau / strategaethau. Nodwyd y byddai modd gwella hyn. Er enghraifft, y penderfyniad a gafodd ei wneud gan y Cabinet i symud i gasgliadau sbwriel bob 3 wythnos a'r cyfraniad y bydd hyn yn ei wneud tuag at gyflawni targedau carbon sero-net. Gofynnodd Aelod a fydd yr Awdurdod yn monitro y nifer uwch o deithiau i'r canolfannau ailgylchu o ganlyniad i roi'r penderfyniad uchod ar waith.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd wybod bod modd i'r pwyllgor craffu gynnal gwaith monitro mewn perthynas ag effaith y penderfyniadau, gan ychwanegu bod llawer o hyn eisoes wedi'i nodi yn yr adroddiadau cyflawniad a gafodd eu cyflwyno i'r pwyllgor craffu. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd Strategaeth Lleihau Carbon y Cyngor hefyd yn destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae'r Awdurdod hefyd wedi bod yn edrych ar becyn cymorth sydd wedi'i ddatblygu gan Brifysgol Manceinion, sy'n sgorio pob penderfyniad yn nhermau'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cael ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru ac rydyn ni'n edrych ar sicrhau mai RhCT fydd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ystyried sut mae modd i ni roi'r cynllun ar waith a sut mae modd i hyn gefnogi'r broses graffu.

Argymhellodd Aelod fod y pum Galwad i Weithredu a'r "Cwestiynau y gallai uwch-arweinwyr a'r rhai sy'n craffu arnynt eu gofyn" yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o adroddiad y Strategaeth Lleihau Carbon.

Yn rhan o'i ymateb i gwestiwn o ran sut mae'r Awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n ceisio cyflawni'r un nod, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod bod manylion cydweithio i'w gweld yn yr adroddiad a bod cydweithio yn ystyriaeth bwysig i bawb yn y sector cyhoeddus. Ychwanegodd fod Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf wedi cwrdd yn ddiweddar ac wedi herio penderfyniadau tymor canolig a thymor hirach o ran meysydd megis newid yn yr hinsawdd. Bydd y Strategaeth Lleihau Carbon yn cynnwys sut y byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau eraill ac a ydyn nhw'n gwneud cynnydd. Bydd hyn yn cynnwys cynllun gweithredu a data manylach i gynnwys cerrig milltir.

Gofynnodd Aelod a yw cadwyni cyflenwi'r Cyngor yn cael eu hystyried hefyd yn rhan o'r strategaeth. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod i'r Pwyllgor fod y Strategaeth Lleihau Carbon yn cynnwys ein cadwyni cyflenwi ac er bod nifer o fuddion o ran dod â chyflenwadau'n agosach, megis lleihau ein hôl troed carbon, mae angen ystyried gwerth am arian.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, wrth ymateb i sylwadau'r Aelodau, fod yr Awdurdod yn ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn gweithio tuag at leihau allyriadau carbon a sicrhau bod y cyhoedd yn deall ac yn cael gwybod bod hyn yn gyfrifoldeb a rennir. Ychwanegodd fod hyn i'w weld yn y Strategaeth.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi adroddiad Archwilio Cymru mewn perthynas â '*Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030*' yn Atodiad 1.

2. Adolygu'r 'Galwadau i Weithredu' fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu yn Atodiad 2, a'u cyflwyno nhw i'r pwyllgor craffu pan fydd yn trafod y Strategaeth Lleihau Carbon.

**41 Y Diweddaraf am Gynnydd y Cyngor – Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb Archwilio Cymru: mwy nag ymarfer blwch ticio?**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i Aelodau er mwyn rhoi adroddiad cenedlaethol diweddaraf Archwilio Cymru a rhoi cyfle iddyn nhw adolygu'r argymhellion yng nghyd-destun ein gwaith ac ymateb y Cyngor. Hefyd, nodi'r adroddiad yng nghyd-destun ehangach rhaglen waith 2021/22 Archwilio Cymru, fydd yn cael ei hadlewyrchu yn y Crynodeb Archwilio sydd i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2023.

Trafododd Aelodau eu bod nhw'n gweld nifer fawr o gynlluniau gweithredu, strategaethau a thargedau felly mae perygl mawr y bydd yr Asesiadau Effaith yn 'ymarfer blwch ticio' yn y Cyngor ac mewn llawer o sefydliadau. Gofynnon nhw ble mae modd iddyn nhw ddod o hyd i waith monitro ar gyfer y penderfyniadau os bydd gyda nhw bryderon am effeithiau negyddol penderfyniad.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod bod proses adolygu gynhwysfawr ar waith i gefnogi proses gwneud penderfyniadau cadarn ac ychwanegodd y byddwn ni'n herio ein hunain trwy drefniadau adolygu er mwyn sicrhau nad yw'n ymarfer blwch ticio. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd dull y Cyngor yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd yn destun gwaith craffu.

Yn rhan o'i ymateb i gwestiwn o ran casglu data, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod bod yr Awdurdod wedi penodi swyddog penodol i ddarparu data sy'n berthnasol i RCT er mwyn cefnogi penderfyniadau a'r effaith y gallen nhw ei chael ar RCT. Er enghraifft, bydd data cyfrifiad yn cael ei drafod gan y pwyllgor craffu er mwyn ystyried sut mae modd i hyn gefnogi Aelodau i graffu ar benderfyniadau yn y

dyfodol.

Trafododd Aelodau fod llawer o drigolion yn teimlo nad yw eu hymatebion i ymgynghoriadau a'r sylwadau maen nhw'n eu nodi ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hystyried a'r hyn y mae modd i'r Cyngor ei wneud i ddangos bod adborth yn cael ei ystyried. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod y bydd y Strategaeth Cyfranogiad yn cynnwys adran "fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni". Ychwanegodd ei bod hi bob amser yn heriol pan fo penderfyniadau anodd yn cael eu hystyried, a bod angen i'r Cyngor barhau â'i ddull agored ac onest wrth ymgynghori â'r cyhoedd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi adroddiad Archwilio Cymru mewn perthynas ag 'Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?' sydd i'w gweld yn **Atodiad 1.**

2. Adolygu a chytuno ar yr ymateb i'r 'Argymhellion' a Meysydd i'w Gwella fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu yn **Atodiad 2,** gan ddarparu diweddariadau rheolaidd am gynnydd a phenderfynu a oes angen gwybodaeth bellach a/neu ddiweddariadau pellach.

## 42 YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB 2023/24 (CAM 2)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i Aelodau a rhoddodd wybod bod y Pwyllgor yn ymgynghorai ffurfiol yn rhan o broses ymgynghori flynyddol y Cyngor mewn perthynas â'r gyllideb, a hynny yn unol â'r Cylch Gorchwyl.

Gan ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid a Gwasanaethau Gwella drosolwg i Aelodau o'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb 2023/24 (Cam 2) gan roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y canlynol: Cyflwyniad – Strategaeth Cyllideb Refeniw Ddrafft 2023/24; Sefyllfa Ariannol Bresennol y Cyngor (2022/23); Ymgynghoriad ar y Gyllideb Cam 1 – Penawdau; Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2023/24 – Penawdau/Goblygiadau ar gyfer Rhondda Cynon Taf; Strategaeth Cyllideb Arfaethedig y Cabinet 2023/24; a'r Camau Nesaf a Dyddiadau Allweddol.

Yn dilyn trosolwg y Cyfarwyddwr Gwasanaeth o Strategaeth Cyllideb Arfaethedig y Cabinet 2023/24, gofynnodd Aelod am adborth o ran y cyfleoedd sydd ar gael i adolygu methodoleg dyrannu cyllid Llywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ac wedyn i awdurdodau lleol. Mae hyn wedi'i gysylltu â setliad dros dro Cyngor Rhondda Cynon Taf, sef +6.6% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef +7.9%. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, o ran y broses ar gyfer dyrannu cyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ledled Cymru, fod grŵp penodol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a'r

llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod y sail ar gyfer dyrannu cyllid yn cynrychioli angen a bod y setiau data sy'n sail i'r dyraniadau'n addas ac yn gywir. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sicrwydd bod Cyngor Rhondda Cynon Taf yn rhan o'r trefniadau yma er mwyn llywio a herio setiau data a'r sail ar gyfer dyrannu cyllid.

Croesawodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth adborth Aelodau o ran meysydd canlynol Strategaeth Cyllideb Arfaethedig y Cabinet 2023/24.

**Treth y Cyngor – cynnydd arfaethedig o 3.5%**

- O ystyried dull y Cyngor mewn perthynas â gosod lefelau Treth y Cyngor yn ddiweddar a'r ffaith mai Rhondda Cynon Taf oedd gyda'r cynnydd isaf ar gyfartaledd i Fand D yng Nghymru am 3 allan o'r 4 blynedd ddiwethaf, cytunodd y rhan fwyaf o Aelodau fod y cynnydd arfaethedig yn ddull pragmatig a synhwyrol.
- Dywedodd Aelod fod y cynnydd arfaethedig o 3.5% yn debygol o fod ymhlith y cynnydd isaf o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Serch hynny, roedd y Cyngor yn gwybod bod heriau cyllideb wedi bod yn bresennol ond penderfynodd ar gynnydd o 1% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2022/23 o'i gymharu â chynnydd arfaethedig o 3.5% ar gyfer 2023/24.

**Cyllideb Ysgolion**

- Nododd Aelod ei bod hi'n anochel y bydd gofyn i ysgolion adolygu eu cyllidebau a'r swm sydd yn y cronfeydd wrth gefn i gefnogi cynllunio ariannol o ganlyniad i'r sefyllfa ariannu heriol. Nododd y bydd lefel y cronfeydd wrth gefn yn wahanol i bob ysgol o ganlyniad i'r cynlluniau sydd gan ysgolion ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn.

- Dywedodd Aelod arall ei bod yn bwysig bod y neges yn cael ei rhoi i ysgolion na fyddan nhw'n cael eu hariannu'n llawn ar gyfer 2023/24. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth trwy ddweud bod y Strategaeth Cyllideb arfaethedig wedi dyrannu cyllid yn llawn er mwyn talu costau ysgolion, gan bennu gofyniad i ysgolion wneud arbedion effeithlonrwydd o 2.2%. Mae hyn yn llai na'r targed dangosol o 2.75% a gafodd ei roi i ysgolion yn yr hydref 2022, ac yn llai na'r gofyniad effeithlonrwydd o 7.7% ar gyfer gwasanaethau sy ddim yn ymwneud ag ysgolion.

- Nododd Aelod arall fod rhai ysgolion yn hŷn sy'n golygu bod eu costau ynni'n fwy. Gofynnodd am eglurder o ran pa gyfleoedd sydd ar gael i wneud arbedion effeithlonrwydd yn yr ysgolion yma. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Cyngor yn cynnal rhaglen barhaus o arolygon ar adeiladau mewn ysgolion, sy'n cynnwys dod o hyd i

gyfleoedd i osod mesurau effeithlonrwydd ynni i leihau defnydd ynni. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Cyngor wedi darparu cyllid ar gyfer cronfa buddsoddi i arbed ers nifer o flynyddoedd, gyda phrosiectau ysgolion a phrosiectau sy ddim yn ymwneud ag ysgolion yn cael eu hariannu trwy'r adnodd yma.

**Arbedion Effeithlonrwydd**

- Cytunodd Aelodau â dull y Cyngor i barhau i wneud yn fawr o arbedion effeithlonrwydd a rhoddon nhw ganmoliaeth i swyddogion am gyflawni arbedion effeithlonrwydd bob blwyddyn a dull parhaus o ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio.

- Cefnogodd Aelod y dull yma gan nodi na ddylai effeithlonrwyddau arwain at wasanaethau sy'n cael eu darparu mewn modd llai effeithiol, a bod angen adolygiad parhaus i fonitro effaith.

- Gofynnodd Aelod arall am sicrwydd o ran y goblygiadau staffio wrth gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth trwy nodi bod gwaith cynllunio manwl yn cael ei gynnal i gefnogi cyflawni arbedion effeithlonrwydd ac mae newidiadau staffio, os bydd angen y rhain, yn cael eu rheoli trwy drosiant staff naturiol, adleoli staff a chynlluniau diswyddo/ymddeol o wirfodd y Cyngor, a thrwy weithio'n agos gyda chydweithwyr yr Undebau Llafur.

**Ffïoedd a Chostau**

- Cytunodd y rhan fwyaf o Aelodau fod y cynigion o ran ffioedd a chostau yn realistig, a hynny'n unol â'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei wneud i gyflawni cyllideb gytbwys a dangos bod costau gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn darparu gwerth am arian o'u cymharu ag ardaloedd cyfagos.

- Roedd Aelod o'r farn bod rhai gwrthddywediadau yn y cynigion o'u cymharu â'r adborth gan y cyhoedd yn rhan o broses ymgynghori cam 1 ar y gyllideb. Yn benodol, tynnodd y cyhoedd sylw at y ffaith bod gwasanaethau, megis gofal cymdeithasol a gwasanaethau hamdden, yn bwysig iddyn nhw ac mae'r strategaeth ar y gyllideb yn cynnig cynyddu'r ffïoedd a chostau yn y meysydd yma. Gallai hyn arwain at economi ffug.

- Nododd Aelod arall a fyddai'n bosibl ystyried ffi uwch ar gyfer y Lido (Pontypridd) i bobl nad ydyn nhw'n byw yn Rhondda Cynon Taf er mwyn helpu i reoli'r nifer o sesiynau wedi'u cadw mewn bloc a nifer y sesiynau wedi'u colli o ganlyniad i bobl yn peidio â dod. Nododd y Cyfarwyddwr

Gwasanaeth yr adborth.

**Cronfeydd wrth gefn**

- Cytunodd Aelodau â'r dull arfaethedig o ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn.
- Gofynnodd Aelod am eglurder o ran sut y bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu hailgyflenwi yn y dyfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod swyddogion y Cyngor yn adolygu gofynion cyllideb sylfaenol a chyfleoedd arbed yn barhaus a bod gan y Cyngor hanes cryf o gyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn sy'n cael eu neilltuo i gronfa cyllid pontio'r Cyngor. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod arbedion yn ystod y flwyddyn, gwerth £3.003 miliwn, wedi cael eu nodi ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, a'u bod nhw wedi cael eu trosglwyddo i'r gronfa cyllid pontio. Hefyd, nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Cyngor yn defnyddio dull call a synhwyrol o ran defnyddio ei gronfeydd wrth gefn.

Ar ôl dod â'r drafodaeth i ben, **PENDERFYNWYD** awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i lunio ymateb ar ran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â Cham 2 – Ymgynghoriad y Cyngor ar y Gyllideb.

**43 Eitemau Brys**

Dim

**44 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r holl Aelodau a swyddogion am ddod i'r cyfarfod ac am eu hadborth, yn enwedig o ran yr ymgynghoriad ar y gyllideb

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 pm**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**

Tudalen wag